

Julie James AS/MS  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



Llyr Gruffydd AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
SeneddClimate@senedd.wales

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

03 Rhagfyr 2021

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd, a gododd nifer o gwestiynau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

Rwy'n falch bod pwyllgor CCEI wedi cael cyfle i glywed gan y Farwnes Brown am ganfyddiadau trydydd Asesiad Annibynnol Risg Hinsawdd CCC. Rhannaf eich pryderon am yr heriau sylweddol iawn i Gymru sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd ac rwyf yn ddiolchgar i Bwyllgor Ymaddasu CCC am eu cyngor.

Mae ein cynllun ymaddasu pum mlynedd presennol, *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Ymwybodol o'r Hinsawdd*, eisoes yn ei ail flwyddyn o gyflwyno. Rydym wedi datblygu nifer o bolisiâu sylweddol, strategol a chydgyssylltiedig sy'n helpu i sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi'i ddiweddarau, Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, Rhaglen Weithredu Genedlaethol Mawndiroedd, Datganiadau Ardal, a datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Rydym yn croesawu ac yn derbyn cyngor diweddaraf y CCC yn llawn. Rydym yn cydnabod bod angen llawer mwy o weithredu, yng Nghymru a ledled y DU, i fynd i'r afael â'r meysydd risg y maent wedi tynnu sylw atynt. Rydym yn benderfynol o ateb yr her honno, ac i wneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau bod effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac unrhyw fesurau polisi a gymerwn, yn cael eu rheoli'n deg ar draws ein cymdeithas.

Mae'n gywir dweud, o dan y trefniadau presennol, nad oes gan y CCC rôl statudol i adolygu ein cynllun ymaddasu ac nid ydym eto wedi gofyn am eu hasesiad o'n cynnydd. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso ar gyfer Cymru sy'n Ymwybodol o'r Hinsawdd yn nodi y bydd ein hail adroddiad cynnydd, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mlwyddyn 4 y cynllun (2024), yn cael ei lywio gan adolygiad allanol, a byddai, yn ôl pob tebyg, gais i CCC amdano.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn hyn, mae fy swyddogion wrthi'n adolygu ein dull polisi ar gyfer addasu'r newid yn yr hinsawdd yng ngoleuni'r dystiolaeth ddiweddaraf gan y CCC. Mae hyn yn cynnwys ystyried newidiadau posibl i'n cyfundrefn fonitro ac adrodd yn y dyfodol a'r posibilrwydd o adroddiadau ychwanegol sy'n benodol i Gymru gan y CCC. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor CCEI am unrhyw newidiadau.

Gan droi at y mater cysylltiedig o lywodraethu ein gwaith ar newid yn yr hinsawdd, cyfeiriasoch at y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Portffolio Newid yn yr Hinsawdd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau lliniaru ac addasu. Mae'r ddogfen Fframwaith Monitro a Gwerthuso sy'n cyd-fynd â Ffyniant i bawb: Cymru sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn nodi bod y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd ac, yn ei dro, maent yn adrodd i bwyllgor pwnc y Senedd ar y newid yn yr hinsawdd, ochr yn ochr â'r Cabinet. Mae'n mynd ymlaen i nodi y cytunir ar adroddiad allbwn gyda'r Bwrdd ar ddiwedd blwyddyn 2 cyn iddo gael ei gyflwyno i mi a'i gyhoeddi. Byddwn yn disgwyl trafod yr adroddiad hwnnw gyda'r Pwyllgor hwn.

O ystyried y ffocws a ddefnyddiwyd gan y Pwyllgor i liniaru'r hinsawdd dros y misoedd diwethaf, deallaf ac rwy'n croesawu diddordeb y Pwyllgor mewn agweddau eraill ar yr argyfwng hinsawdd.

Yn olaf, crybwyllwyd gennych y llythyr gan CCC at Lywodraeth Cymru ynghylch data allyriadau Cymru yn adroddiad cynnydd blynyddol y DU gyfan. Mae'r mater yn codi oherwydd bod data allyriadau Cymru yn cael ei ryddhau ar ôl i'r CCC gwblhau ei adroddiad cynnydd yn y DU ond cyn iddo gael ei gyhoeddi. Mae'r un mater yn effeithio ar yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad cynnydd yn dyfynnu data allyriadau diweddaraf y DU yn ymarferol ond yn dyfynnu data o'r gwledydd eraill o'r flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir data'r DU yn gynharach yn y flwyddyn na data'r gwledydd eraill.

Nid ydym wedi cyhoeddi ymateb ysgrifenedig i lythyr CCC ynghylch cynnwys data allyriadau Cymru yn adroddiad cynnydd blynyddol CCC yn y DU. Yn hytrach, rydym wedi trafod y mater gydag ysgrifenyddiaeth CCC.

Mae'r Senedd yn gallu cael gafael ar ddata allyriadau diweddaraf Cymru ar yr un pryd ag y gall ddarllen adroddiad cynnydd CCC yn y DU. Felly, rwy'n fodlon nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar allu'r Senedd i graffu ar gynnydd Cymru o ran lleihau allyriadau. Fodd bynnag, mae'n amlwg y byddai'n well i'r adroddiad gynnwys yr holl ddata ar gyfer yr un flwyddyn. Rheolir data'r DU a'r gwledydd o dan gontract Llywodraeth y DU, sy'n pennu pryd y caiff data Cymru ei gynhyrchu ac felly ar gael i ni ei gyhoeddi. Rydym yn parhau i geisio penderfyniad rhwng Llywodraethau'r DU a Llywodraethau Datganoledig ar y mater hwn.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change